**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**3 Tachwedd 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dyfrig Siencyn ac Iwan Trefor Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen oherwydd bod ei fab-yng-nghyfraith yn gweithio i Wasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2015.

**6. GWASANAETH LLYFRGELL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Gohirio'r penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd.

## 7. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 – MEYSYDD AMGYLCHEDD, AMDDIFADEDD, ECONOMI A CHYMUNED, A IECHYD, GOFAL A LLES

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod, gan ddiolch i staff y Cyngor am gynnal lefelau perfformiad.

Gweithredu ar y canlynol –

- Cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd er mwyn amlygu'r pryderon recriwtio fel ag y nodir yng nghymal 4.3 o'r adroddiad, a cheisio datrysiad.
- Parhau i geisio darganfod dulliau o wella perfformiad, gan ganolbwyntio ar ganfod datrysiadau ar gyfer meysydd ble nad ydi'r Cyngor yn llwyddo i ateb gofynion pobl Gwynedd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.35pm.

______________________________________

**CADEIRYDD**